Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | | |
|---|---|---|
| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 11 MEHEFIN 2014 am 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY, 11 JUNE, 2014 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Denise Harris Edwards
Islwyn Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Leslie Lord
Dilys Shaw
Michael Wilson (Cadeirydd/Chair)

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

William Raymond Evans
John Roberts

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unryw eitem ar y Rhaglen.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2014.
***(PAPUR 'A')***

3 **FFORWM PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 9 - 22)

Cadarnhau cofnodion y Fforwm Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2014 a derbyn adroddiad llafar gan Mr. Mike Wilson.
***(PAPUR 'B')***

4 **DATGANIADAU O DDIDDORDEB MEWN CYFARFODYDD A'R GOFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH** (Tudalennau 23 - 26)

Derbyn diweddariad gan uwch Reolydd y We ar y sefyllfa mewn perthynas â'r tair cofrestr ac yn arbennig felly'r gofrestr ar gyfer datgan diddordebau mewn cyfarfodydd.
***(PAPUR 'C')***

5 **PROSIECT RHEOLI CWYNION - ADOLYGIAD ARCHWILIO** (Tudalennau 27 - 28)

Derbyn diweddariad gan y Rheolwr Archwilio ar y modd y mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda'I Bolisi Corfforaethol ar gyfer Pryderon a Chwynion.
***(PAPUR 'CH')***

6 **ADOLYGIAD PERFFORMIAD**

Derbyn adroddiad gan yr Uwch Reolydd Datblygu AD ar y cam nesaf o'r adolygiad perfformiad yn dilyn cytuno ar y disgrifiadau swydd.
***(PAPUR 'D' – I DDILYN)***

7 **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 29 - 32)

**7A** Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'I ddiweddaru ar gyfer Cynghorwyr Sir. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
***(PAPUR 'DD')***

**7B** Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'I ddiweddaru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
***(PAPUR 'E')***

8 **PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU** (Tudalennau 33 - 42)

**8A** Bydd y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) yn cyflwyno crynodeb o benderfyniadau a waned yn ddiweddar.
***(PAPUR 'F')***

**8B** Derbyn crynodeb gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) o Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru.
***(PAPUR 'FF')***

**9** **<u>HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU'R PWYLLGOR A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED</u>** (Tudalennau 43 - 54)

**9A** Crynodeb gan y Gyfreithwraig (LLywodraethu Corfforaethol) o'r ymatebion a dderbyniwyd i lythyrau a anfonwyd mewn perthynas â mynychu sesiynau hyfforddiant gan Un Llais Cymru ynghyd â thrafodaeth ar y digwyddiad hyfforddi nesaf ar gyfer Clercod a gynhelir yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn – h.y. ffurf yr hyfforddiant a'r pynciau y dylid eu cynnwyd.
***(PAPUR 'G')***

**9B** Derbyn adroddiad gan y Gyfreithwraig (llywodraethu Corfforaethol) ar yr hyfforddiant a gyflwynir gan Mr. Peter Keith Lucas ar 1af Gorffennaf, 2014.
***(PAPUR 'NG')***

**10** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD A'R RHAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 55 - 66)

Derbyn adroddiad gan y Cadeirydd ar yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 8 Mai, 2014.
***(PAPUR 'H')***

This page is intentionally left blank

# ATODIAD / ENCLOSURE A

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr. Islwyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Mrs. Denise Harris Edwards,<br>Mr. Leslie Lord,<br>Mrs. Dilys Shaw.<br><br>**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorwyr W. Raymond Evans, John Roberts<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd (JHJ) (ar gyfer Eitemau 9 & 10),<br>Cyfreithwraig – Llywodraethiant Corfforaethol (AP),<br>Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer Eitem 7),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEUR-IADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd R. Thomas |

Cyfeiriodd y Cadeirydd at waeledd y Cynghorydd Dafydd R Thomas. Cytunwyd y dylid anfon llythyr at y Cynghorydd Thomas ar ran y Pwyllgor yn dymuno'n dda iddo.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2013.

**YN CODI**

4.(1) – Yn y cofnodion, cyfeiriwyd at lythyr a anfonwyd at yr Aelodau Etholedig yn eu hatgoffa i lenwi'r gofrestr o roddion a lletygarwch ar-lein. Gofynnodd yr Is-gadeirydd pam nad oedd modd datgan rhoddion a lletygarwch ar y wefan ar hyn o bryd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) y gall Aelodau Etholedig lenwi'r ffurflen ar-lein a bod angen lleihau'r defnydd o ffurflenni papur a defnyddio'r cyfleuster i gofrestru rhoddion a lletygarwch ar-lein. Dywedodd hefyd mai'r cyfleuster ar gyfer Datgan Diddordebau mewn Cyfarfodydd oedd yr un nad oedd ar gael ar hyn o bryd.

**GWEITHREDU: Rheolydd y We Gorfforaethol i roi diweddariad i'r cyfarfod nesaf ar gynnydd mewn perthynas â'r gofrestr datgan diddordebau mewn cyfarfodydd.**

11. Cyfeiriwyd yn y cofnodion at hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad. Gofynnwyd cwestiwn gan yr Is-gadeirydd mewn perthynas â'r argymhelliad y dylai aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfod o Gyngor Tref Caergybi. Gofynnodd a oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer y cyfarfod. Dywedodd y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) ei bod wedi ysgrifennu at Glerc Cyngor Tref Caergybi ddwy waith i ofyn pryd y bydd y sesiynau hyfforddi'n cael eu cynnal ond nid ydyw hyd yma, wedi cael ateb.

**Gweithredu: Y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) i adrodd ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf wedi iddi gael ymateb gan Gyngor Tref Caergybi. Bydd y Cynghorydd T Ll Hughes yn codi'r mater hwn yn y cyfarfod nesaf y bydd ef yn ei fynychu.**

**3 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU**

**3A** Cyflwynwyd a nodwyd cofnodion y cyfarfod o'r Fforwm Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2013.

**GWEITHREDU : Dim**

**3B** Cyflwynwyd a chymeradwywyd y llythyrau a fydd yn cael eu hanfon at Un Llais Cymru a Chymdeithasol Llywodraethol Leol Cymru mewn perthynas â datblygu (i)Model o wefan ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, a (ii) pecyn cymorth ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r llythyr at Un Llais Cymru a CLlLC fel a nodir uchod gan ymgorffori ynddo'r newidiadau a awgrymwyd gan yr Is-Gadeirydd yn y cyfarfod.**

**GWEITHREDU : Anfon copi o lythyr Un Llais Cymru at Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd i'w gymeradwyo ganddo.**

**3C** Cyflwynwyd – copi o lythyr i'w anfon at yr Ombwdsmon yn gofyn am gael cynnwys ar wefan yr Ombwdsmon y penderfyniadau hynny a wneir gan Bwyllgorau Safonau.

Roedd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) o'r farn y gellid cynnwys yr eitem hon ar raglen y Fforwm Pwyllgorau Safonau ac y dylid gofyn i'r Fforwm benderfynu a ddylid ei anfon ymlaen yn ei enw ef.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys llythyr yr Ombwdsmon.**

**GWEITHREDU : Gofyn i'r Fforwm Pwyllgor Safonau rhanbarthol gymeradwyo ac anfon y llythyr.**

## 4 DATGANIADAU O DDIDDORDEB MEWN CYFARFODYDD A'R GOFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH

Rhoes y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) ddiweddariad llafar ar y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r cofrestrau isod:-

- Y gofrestr sefydlog;
- Y gofrestr o ddatganiadau o ddiddordebau mewn cyfarfodydd;
- Rhoddion a lletygarwch.

Mewn perthynas â'r uchod, eglurodd y Gyfreithwraig na fu unrhyw newid ers y cyfarfod diwethaf. Yn dilyn trafodaeth gyda Rheolydd y We Gorfforaethol, dywedwyd bod angen datblygu meddalwedd ychwanegol ar gyfer y gofrestr o ddiddordebau mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau ei bod yn rhyngweithiol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Derbyn diweddariad gan Reolydd y We Gorfforaethol yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 5 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYMRU

**5A** Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cynghorwyr Sir.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Adroddiad diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

**5B** Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Adroddiad diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

## 6 PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU

Cyflwynwyd – Crynodeb a gyflwynwyd gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 13 Rhagfyr. 2013 a 12 Mawrth, 2014.

Cyflwynodd y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) adroddiad cefndirol ar ganlyniadau dau achos a aeth gerbron y Panel Dyfarnu.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) yn y Pwyllgor Safonau nesaf.**

## 7 HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD AC ADOLYGIADAU PERFFORMIAD (PWYLLGOR SAFONAU)

**7A** Cafwyd cadarnhad fod llythyrau wedi cael eu hanfon at Gynghorau Cymuned ac Aelodau Etholedig yn eu wardiau i ddwyn sylw at eu record bresenoldeb yn y sesiwn hyfforddi.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Bod adroddiad diweddaru ar yr ymatebion a dderbyniwyd yn cael ei gyflwyno gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

**7B** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y bwriedir cynnal hyfforddiant mewnol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref/Cymuned ar y Côd Ymddygiad yn yr hydref.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Gwneud trefniadau i drefnu sesiwn hyfforddi fewnol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref/Cymuned ar y Côd Ymddygiad a bod y sleidiau ar gyfer y sesiwn ar gael i'r Pwyllgor Safonau.**

**7C** Dywedodd yr Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol yr anfonwyd llythyr at Un Llais Cymru ynghylch safon yr hyfforddiant a ddarparwyd y llynedd. Nodwyd ymhellach fod Un Llais Cymru wedi gwrthod i'r Cyngor Sir gael y sleidiau o'u cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

**7CH** Rhoes yr Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol adroddiad llafar ar y broses gyfredol ar gyfer adolygu perfformiad yr Aelodau Etholedig a chyfeiriodd at y dogfennau pro-forma a ddefnyddir.

Dywedwyd bod angen yn awr i Aelodau Etholedig baratoi Adroddiadau Blynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt yn ystod eu blwyddyn yn y swydd, eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ynghyd â'r sesiynau hyfforddiant y maent wedi eu mynychu.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y bydd adolygiad tebyg yn cael ei gynnal ar gyfer Aelodau Lleyg ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Bod yr Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol yn cyflwyno adroddiad diweddaru i'r cyfarfod nesaf.**

## 8 ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y crynodeb o'r canfyddiadau'n dilyn yr adolygiad o'r cofrestrau. Soniodd am y materion isod:-

Y Gofrestr Sefydlog

- Cynghorwyr yn methu darparu gwybodaeth am fudd mewn tir;
- Ffurflenni ddim yn cael eu llenwi'n llawn neu'n gywir.

Y Gofrestr o Ddatganiadau o Ddiddordeb mewn Cyfarfodydd

- Dryswch rhwng diddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu;
- Rhai Cynghorwyr yn parhau i ddefnyddio'r hen ffurflenni.

Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch

- Ychydig iawn o ddatganiadau a wnaed ynghylch rhoddion a lletygarwch;

Cofrestr Hyfforddiant

- A ddylid cyhoeddi'r gofrestr hyfforddiant ar-lein?

**PENDERFYNWYD: Symud ymlaen ac anfon canfyddiadau cyffredinol yr adolygiad at yr holl Aelodau Etholedig yn dilyn trafodaethau gydag Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.**

**GWEITHREDU: Trafod anghenion hyfforddi'r Aelodau Etholedig mewn perthynas â llenwi'r Cofrestrau uchod.**

## 9 STATWS SIARTER AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y dyfarnwyd i'r Cyngor Sir lefel sylfaenol y Statws Siarter ar gyfer Llywodraethiant Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

## 10 GWEDDARLLEDU/MYNYCHU O BELL A CHYMORTH TGCH I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd er gwybodaeth, yr adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 30 Ionawr, 2014. Yn yr adroddiad hwn, nodir y cyd-destun a'r cynigion ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell. Penderfynodd y Cyngor Sir ar 10 Hydref 2013 i symud ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o ddwy flynedd. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, dyfarnwyd y cytundeb i Public-i.

Rhoes Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ac eglurodd fod yr amserlen ar gyfer derbyn y grant am y cyfnod arbrofol wedi cael ei hymestyn i'r flwyddyn nesaf. Eglurodd y bydd darlledu byw yn dechrau ym mis Mehefin, gan gychwyn gyda'r Pwyllgor Gwaith, ac yna'r Cyngor Sir a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, a'r modd y byddir yn rhoi prawf ar y system gyda'r aelodau a'r Staff cyn mynd yn fyw. Bydd Public-I yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus ar y cychwyn. Eglurodd y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai.

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y grant a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i bob Cyngor Tref a Chymuned i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

Pwrpas y grant hwn yw cynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned i baratoi ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 sy'n cynnwys darpariaethau a fyddai'n golygu y byddai angen i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi llacio'r canllawiau o ran defnyddio'r grant ac y disgwylir canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru. Soniodd y dylai pob cyngor cymuned, erbyn 2015, gael gwefan. Disgwylir canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd o fis Mehefin 2014 ymlaen.**

- **Nodi'r sefyllfa gyfredol o ran mynychu o bell.**

**GWEITHREDU : Bod adroddiad diweddaru ar yr uchod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol.**

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

ATODIAD / ENCLOSURE
B

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU
# NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM

## Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2014 am 2.00 pm
## Tuesday, 29 April 2014 at 2.00 pm

## Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug
## County Hall, Mold

| | |
|---|---|
| **Ynys Môn/Isle of Anglesey** | Michael Wilson – Cadeirydd/Chair<br>Islwyn Jones – Is-Gadeirydd/Vice-Chair<br>Lynn Ball – Swyddog Monitro/Monitoring Officer<br>Robyn Jones – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer |
| **Conwy** | Howie Roberts - Cadeirydd/Chair ***(Cadeirydd/Chair)***<br>Samuel Adams - Is-Gadeirydd/Vice-Chair<br>Delyth Jones - Swyddog Monitro/Monitoring Officer<br>Ceri Williams – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer |
| **Sir Ddinbych/Denbighshire** | Ian Trigger - Cadeirydd/Chair<br>Rev. Wayne Roberts - Is-Gadeirydd/Vice-Chair<br>Gary Williams - Swyddog Monitro/Monitoring Officer<br>Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer |
| **Sir y Fflint/Flintshire** | Patricia Jones – Cadeirydd/Chair<br>Edward Hughes – Is-Gadeirydd/Vice-Chair<br>Gareth Owens – Swyddog Monitro/Monitoring Officer |
| **Gwynedd** | Gwilym Ellis Evans – Cadeirydd / Chair<br>Sam Soysa – Is-Gadeirydd/Vice-Chair<br>Dilys Ann Phillips – Swyddog Monitro/Monitoring Officer<br>Siôn Huws – Swyddog Priodoldeb/Propriety Officer |
| **Wrecsam/Wrexham** | Rob Dawson – Cadeirydd/Chair<br>Ceri Nash – Is-Gadeirydd/Vice-Chair<br>Trevor Coxon – Swyddog Monitro/Monitoring Officer<br>Sioned Wyn Davies – Dirprwy Swyddog Monitro/Deputy Monitoring Officer |
| **Awdurdod Tân ac Achub/ Fire and Rescue Authority** | Jane Eyton-Jones– Cadeirydd/Chair |
| **Parc Cenedlaethol Eryri/ Snowdonia National Park** | David Vaughan – Cadeirydd/Chair |

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Cofnodion**

   Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir *(Tudalennau 3 - 6)*

3. **Sesiwn Hyfforddiant**

4. **Sesiwn agored ar gyfer Eitemau o Ddiddordeb**

5. **Cymeradwyo llythyrau gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â Materion Safonau:-**

   i) Un Llais Cymru *(Tudalennau 7 - 10)*

   ii) Ombwdsmon *(Tudalennau 11 - 12)*

6. **Unrhyw Eitem Arall**

7. **Adborth**

8. **Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

EITEM RHAGLEN 2

**COFNODION CYFARFOD**
**FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**
**A GYNHALIWYD YN NEUADD Y DREF, WRECSAM**
**DYDD LLUN 21 HYDREF 2013**

**PRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | Michael Wilson - Cadeirydd<br>Islwyn Jones - Is-Gadeirydd<br>Lynn Ball - Swyddog Monitro |
| Sir y Fflint | Patricia Jones - Cadeirydd |
| Gwynedd | Gwilym Ellis Evans - Cadeirydd<br>Sam Soysa - Is-gadeirydd |
| Wrecsam | Rob Dawson - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd Paul Pemberton<br>Cynghorydd Cymuned Geoff Edwards<br>Trevor Coxon – Swyddog Monitro<br>Sioned Wyn Davies - Dirprwy Swyddog Monitro<br>Jane Johnson – Uwch Swyddog Pwyllgorau |

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran Howie Roberts a Samuel Rowlands (Conwy), Ian Trigger a'r Parch Wayne Roberts (Sir Ddinbych), Gareth Owens (Sir y Fflint), Ceri Nash (Wrecsam) a Jane Eyton-Jones (Awdurdod Tân ac Achub)

**2 CROESO**

Rhoddodd Mr Rob Dawson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, groeso i'r rhai oedd yn bresennol i'r cyntaf o'r Fforymau Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar ei newydd wedd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd 20 Mai 2013 i'w cymeradwyo.

Cywiriadau

Tudalen 1 – Penodi Is-Gadeirydd
Bod y cyfeiriadau at 'y Cynghorydd Gwilym Ellis Evans' yn cael ei newid i ddweud 'Mr Gwilym Ellis Evans'

Tudalen 6 - Indemniadau ar gyfer Aelodau a Phenderfyniadau Lleol
Cynigiwyd dileu'r geiriau 'Dywedwyd wrth yr Aelodau' o ddechrau ail frawddeg y paragraff cyntaf ar frig tudalen chwech ac yn eu lle 'Mynegwyd barn ......'

**PENDERFYNWYD - yn amodol ar y cywiriadau uchod, derbyn a chadarnhau Cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Mai 2013 fel cofnod cywir.**

## 4 SESIWN HYFFORDDIANT

Rhoddodd Mr Trevor Coxon, Swyddog Monitro Wrecsam gyflwyniad ar yr Hyfforddiant Cod Ymddygiad a ddarparodd i Gynghorwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chlercod a Chynghorwyr Cynghorau Tref a Chymuned yn Wrecsam, gan esbonio pam fod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu, sut cafodd yr hyfforddiant ei gyflwyno gydag enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddiwyd, canlyniadau'r hyfforddiant a oedd wedi arwain at y manteision ac anfanteision canlynol:

- Llai o gwynion am Gynghorau Tref a Chymuned
- Roedd llai o'r cwynion a wnaed yn cael eu cadarnhau
- Clercod yn fwy gwybodus ac yn fwy hyderus
- Llai o faterion ar gyfer y Swyddog Monitro
- Cynghorau Tref a Chymuned yn fwy rhagweithiol wrth geisio cyngor
- Llai o "ofn" o'r Cod
- Gall Aelodau a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned weld y Swyddog Monitro fel dull rhad o gael cyngor cyfreithiol cyffredinol
- Gall Cynghorau Tref a Chymuned unigol wneud galwadau am hyfforddiant personol
- Gwrthdaro posibl â rôl ymgynghorol i'r Pwyllgor Safonau

Yn ystod y sesiwn drafod cyfeiriwyd at y canlynol:

- Rôl aelodau'r Pwyllgor Safonau. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i fynychu'r sesiynau hyfforddi, fodd bynnag, byddai'r hyfforddiant dal yn mynd yn ei flaen os nad oes un o aelodau'r pwyllgor yn gallu bod yn bresennol, gan mai egwyddor yr hyfforddiant oedd addysgu yn hytrach na phlismona – roedd atal yn well na gwella.
- Problemau a gafwyd o ran presenoldeb gwael mewn digwyddiadau hyfforddi ac a ddylai'r Gweinidog gael ei annog i gynnwys amod yn y Cod i wneud hyfforddiant yn orfodol. Dywedodd Mr Coxon bod yr adborth a dderbyniwyd yn Wrecsam o'r digwyddiadau hyfforddiant wedi bod yn gadarnhaol iawn gan nodi bod y rhai a oedd yn bresennol wedi canfod y digwyddiadau'n bleserus a defnyddiol. Yna, dwedodd rhai a fu'n bresennol wrth eraill am ba mor ddefnyddiol yr oeddent wedi cael yr hyfforddiant. Roedd y Cyngor Bwrdeistref Sirol hefyd wedi nodi Hyfforddi Craidd a oedd yn ofynnol i bob Cynghorwr y Fwrdeistref Sirol ei fynychu, un elfen oedd yr Hyfforddiant Cod Ymddygiad, roedd unrhyw hyfforddiant Craidd yr oedd Aelodau unigol yn ei fynychu wedi'i gofnodi ar eu tudalen we. Dywedodd Mr Coxon fod modiwlau e-ddysgu wedi cael eu hystyried, ond roedd y rhyngweithio mewn digwyddiadau hyfforddiant yn fwy buddiol. Cynhaliwyd hyfforddiant hefyd cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau fel rhan o'r broses gyflwyno gyda hyfforddiant gloywi yn cael ei wneud yn flynyddol. Gallai'r llythyr gwahoddiad i hyfforddiant o bosibl gynnwys nodyn atgoffa mai'r cwestiwn cyntaf a ofynnwyd gan yr Ombwdsmon oedd pryd oedd y Cynghorydd wedi cofrestru ar gyfer y Cod a phryd y buont ar hyfforddiant ddiwethaf.
- Materion cyfryngau cymdeithasol. Esboniodd Mr Coxon fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi mabwysiadu protocol. Nid oedd y mater hwn wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau nac unrhyw waith a wneir gyda Chynghorau Cymuned.

## 5 SESIWN AGORED AR GYFER EITEMAU CYFREDOL O DDIDDORDEB

(i) Hyrwyddo Democratiaeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd

Roedd Pwyllgor Safonau Cyngor Ynys Môn wedi gofyn i'r Fforwm drafod y paragraff a amlygwyd yn y llythyr gan Carl Sargeant AC, Gweinidog Tai ac Adfywio, dyddiedig 28 Ionawr 2013.

> 'Yn yr un modd, mae prif gynghorau yn y sefyllfa orau i weithio gyda'u cynghorau cymuned a thref i alluogi'r cyhoedd i gael mynediad i wybodaeth sy'n ymwneud â busnes eu cyngor lleol a sut i gysylltu â nhw. Byddwch yn ymwybodol bod y darpariaethau i ddod â hyn mewn grym yn cael eu cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cynulliad. Hoffwn i brif gynghorau weithio gyda'u cynghorau cymuned i helpu dwyn hyn ymlaen.'

Er bod y mater o ddarparu cefnogaeth i Gynghorau Tref a Chymuned, o ran eu presenoldeb ar y we y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgorau Safonau, gwelodd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn y datblygiad hwn fel cyfle i wella ymwybyddiaeth Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â hysbysu'r cyhoedd, drwy annog Cynghorau Tref a Chymuned i gynnwys gwybodaeth am y Cod Ymddygiad (a oedd yn gymwys i'w Haelodau), sut a gyda phwy i gyflwyno cwynion a rôl y Pwyllgorau Safonau lleol.

Cytunodd Cyngor Sir Gwynedd y dylai gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu'r wybodaeth ychwanegol hon yn enwedig mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor Safonau ac awgrymwyd y gellid cyfeirio'r cyhoedd i gysylltu ag Aelodau'r Pwyllgor Safonau os oedd ganddynt gŵyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned. Mynegwyd pryder y gallai hyn 'gymylu'r dyfroedd' pe bai'r gŵyn yn mynd ymhellach ac yn y diwedd yn cael ei chyfeirio i'r Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon.

Awgrymwyd hefyd y gallai cwynion o'r fath yn y lle cyntaf gael eu cyfeirio i'r Swyddog Monitro i'w setlo o dan y Protocol/ Gweithdrefn Datrys yn Lleol heb unrhyw angen i gyfeirio at yr Ombwdsmon. Mynegodd Swyddog Monitro Wrecsam bryderon yn awgrymu y byddai'n annoeth i Swyddogion Monitro gymryd rhan yn yr holl brosesau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned gan y gallai hyn ddominyddu eu hamser yn drwm.

Gan fod gofyn i lawer o Gynghorau Tref a Chymuned gymryd gwasanaethau ychwanegol ar eu hysgwyddau, awgrymwyd y byddai pecyn cymorth tebyg i'r un a ddatblygwyd ar gyfer awdurdodau yn Lloegr yn ddefnyddiol ac a allai Un Llais Cymru ddatblygu dolen gyswllt i becyn cymorth tebyg ar eu gwefan .

**PENDERFYNWYD - Bod Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cael eu hannog i ddatblygu adnodd tebyg i'r pecyn cymorth a ddarparwyd ar gyfer awdurdodau yn Lloegr.**

(ii) Amser Ymchwilio'r Ombwdsman

Roedd Cyngor Sir Gwynedd wedi gofyn am i'r eitem hon gael ei rhoi ar y rhaglen er mwyn galluogi'r Fforwm i drafod pryderon a oedd ganddynt mewn perthynas â'r amser a oedd yn cymryd yr Ombwdsmon i gwblhau ymchwiliad ac, os teimlir yn briodol, i'r Fforwm gyflwyno sylwadau i'r Ombwdsmon.

O gofio y byddai Ombwdsmon newydd yn fuan, roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn teimlo y byddai'n fwy priodol i gael trafodaethau cynnar â'r Ombwdsmon newydd, pan gai ei benodi, ac o bosibl gwahodd yr Ombwdsmon newydd i un o gyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol.

Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi profi unrhyw oedi o'r fath.

**PENDERFYNWYD - Bod y materion hyn yn cael eu codi gyda'r Ombwdsmon newydd ar ôl ei benodi, yn hytrach na gwneud sylwadau ar hyn o bryd.**

(iii) Gwe-ddarlledu Pwyllgorau Safonau

Trafododd y Fforwm a fyddai'n briodol i weddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau ac roedd consensws cyffredinol yn erbyn hyn.

(iv) Dirprwyo Goddefebau

Holodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynglŷn â'r broses o roi goddefebau mewn awdurdodau eraill ac a oedd unrhyw bosibilrwydd i hyn gael ei ddirprwyo i Swyddog neu gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Safonau.

Nodwyd bod y Canllaw yn nodi'n benodol mai'r Pwyllgor Safonau yn unig allai roi goddefebau.

Dywedwyd, yn Ynys Môn bod gan y Pwyllgor Safonau Is-Bwyllgor oedd yn delio â goddefebau ac yng Ngwynedd roedd y Pwyllgor Safonau wedi mabwysiadu protocol/ canllawiau ar gyfer caniatáu goddefebau, a byddent yn hapus i rannu hyn gydag awdurdodau eraill.

## 6 ADBORTH

Roedd consensws cyffredinol bod y fformat newydd ar gyfer y Fforwm yn gweithio'n dda ond mynegodd y rhai a oedd yn bresennol eu siom ynghylch y presenoldeb gwael.

## 7 DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

**PENDERFYNWYD - Bod y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2014, lleoliad i'w gadarnhau.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.56pm)

Un Llais Cymru / One Voice Wales
24 College Street
Amanford
SA18 3AF

| | |
|---|---|
| Annwyl Foneddigion | Dear Sirs |
| **YNG: Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru ("SCFNW")** | **RE: The North Wales Standards Committee Forum ("NWSCF")** |
| Fel y byddwch yn gwybod, mae Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 (sydd ar hyn o bryd yn disgwyl gorchymyn cychwyn) yn nodi bod yn rhaid i Gynghorau Cymuned beri bod gwybodaeth benodol ar gael yn electronig ar eu gwefannau (i gynnwys gwybodaeth am eu haelodau, cofnodion cyfarfodydd, archwiliadau a datganiadau o gyfrifon y Cyngor). | As you know, section 55 of the Local Government (Democracy) Wales Act 2013 (currently awaiting a commencement order) requires that community councils make certain information available electronically on their website (to include information on their members, minutes of meetings, audits and statements of the Council's accounts). |
| Pan gyflwynir y gorchymyn cychwyn, bydd yn rhaid i nifer o Gynghorau Cymuned weithredu gwefan am y tro cyntaf ac ni fydd ganddynt fawr o brofiad o wneud hyn, os o gwbl. Mae'n ddiau, pan ddaw yn fater o gyflawni'r gofynion cyhoeddi statudol, y byddwch yn rhoi cyngor a chymorth i Gynghorau Cymuned. | Upon a commencement order being introduced, many community councils will have to implement a website for the first time, and will have very little or no experience of this. No doubt when it comes to the statutory publication requirements you will provide advice and assistance to community councils. |
| Yn ychwanegol at hyn, rydym yn credu y byddai'n fuddiol pe gallech eu cynorthwyo drwy ddarparu gwybodaeth benodol i'w arddangos ar eu gwefannau am y trefniadau moesegol canlynol sy'n berthnasol i Gynghorau Cymuned :- | Additionally we believe it would be beneficial if you could also provide assistance to them in producing specific copy, to be displayed on their websites, on the following ethical arrangements:- |
| (i) Manylion ar ofynion y côd ymddygiad fel y maent yn berthnasol i Gynghorwyr Cymuned;<br>(ii) Manylion ynglŷn â sut y gall aelodau o'r cyhoedd codi pryderon ynglyn a Cynghorau Cymuned; a<br>(iii) Gwybodaeth am swyddogaethau perthnasol (a) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (b) Pwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol, a (c) Panel Dyfarnu Cymru fel y maent yn berthnasol i gynghorwyr cymuned. | (i) details on the code of conduct requirements as applicable to community councillors;<br>(ii) details on how members of the public may raise concerns about community councillors; and<br>(iii) information on the respective roles of (a) the PSOW (b) Local Authorities' Standards Committees and (c) the Adjudication Panel for Wales, as they apply to community councillors. |

CC-017471-AP/201480

| | |
|---|---|
| Tybir mai'r amser gorau i gynhyrchu'r wybodaeth hon fyddai pan gyflwynir y gorchymyn cychwyn. | Presumably the best time to assist community councils in producing this information would be when the commencement order is introduced. |
| Rydym hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er gwybodaeth ac edrychwn ymlaen at glywed gennych mor fuan ag sy'n bosibl ynglŷn â'ch bwriadau. | We have also sent a copy of this letter to the Welsh Local Government Association for their information and look forward to hearing from you as soon as possible with your intentions. |
| Diolch yn fawr. | Many thanks. |
| Yr eiddoch yn gywir, | Yours faithfully |
| Rob Dawson<br>Cadeirydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru<br>The Chair of the North Wales Standards' Committee Forum | |

cc WLGA, Local Government House, Drake Walk, Cardiff CF10 4LG

Un Llais i Gymru - One Voice Wales
Uned 5
Parc Busnes Betws
Heol Y Parc
Rhydaman
Gaerfyrddin
SA18 2ET

, 2014

Annwyl Syr

**YNG: Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru**

Mae Aelodau'r Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn credu y gwelwyd cynnydd yn niferoedd yr ymholiadau / honiadau sy'n honni bod aelodau cynghorau cymuned wedi torri'r Côd Ymddygiad.

Mae'r honiadau i raddau helaeth yn faterion sy'n ymwneud â pharch / ystyriaeth ac / neu fwlio / aflonyddu; gyda llawer ohonynt wedi eu sylfaenu ar ffaeleddau gweinyddol honedig o fewn eu Cyngor ac sydd yn sbarduno gwrthdaro mewnol ac allanol.

Mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r mater hwn rydym o'r farn y byddai o fantais i gynghorau cymuned pe bai Un Llais Cymru yn gallu cyhoeddi model ar ei wefan, fyddai rhywbeth yn debyg (ond o bersbectif Cymru) i'r un a ddarparwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Safonau dros Loegr; y gellir ei weld drwy ddilyn y cyswllt yma:-

http://standardsforengland.gov.uk/guidance/

Dear Sirs

**RE: North Wales Standards Committee Forum ("NWSCF")**

The Members of the NWSCF believe there has been an increase in the number of enquiries / allegations alleging a breach of the Code of Conduct by community council members.

The allegations are largely issues relating to respect / consideration and / or bullying / harassment; many of them underpinned by alleged administrative failings within their Council which are triggering internal and external conflict.

In an effort to address this issue we are of the view that it would be of great benefit to community councils if One Voice Wales was able to publish a toolkit on its website, similar (but from the Wales perspective) to the one previously provided by the Standards Board for England; which may be found by following this link:-

http://standardsforengland.gov.uk/guidance/

Rydym hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er gwybodaeth, ac rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych cyn gynted ag y bo modd.

Cofion

Yr eiddoch yn gywir

We have also sent a copy of this letter to the Welsh Local Government Association and look forward to your views as soon as possible.

Many thanks

Yours faithfully

Rob Dawson
Cadeirydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru /
Chair of the North Wales Standards Committee Forum

cc WLGA, Local Government House, Drake Walk, Cardiff CF10 4LG

# EITEM RHAGLEN 5b

Ombudsman for Wales
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Annwyl Syriaid

**FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU ("FFPSGC")**

Mewn cyfarfod o'r Fforwm uchod cytunwyd y byddai o fudd i bob pwyllgor safonau yng Nghymru pe bai'r Ombwdsmon yn fodlon darparu canllawiau ar sancsiynau sydd wedi eu teilwrio'n benodol i anghenion a phwerau pwyllgorau safonau; yn hytrach na cheisio gweithredu ar rhannu perthnasol o Ganllawiau Panel Dyfarnu Cymru.

Yn ychwanegol, mae rhifyn cyntaf "Llyfr Achosion Côd Ymddyiad Yr Ombwdsmon" wedi bod o fudd mawr. Fodd bynnag, mae Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn ystyried y byddai'n hyd yn oed yn fwy defnyddiol pe bai crynodebau o'r achosion yn cael eu cyhoeddi wrth i'r achosion hynny ddod i ben, efallai ar wefan yr Ombwsmon. Byddwn yn falch o glywed a oes modd gwneud hynny. Fel arall, a fyddai modd cyoeddi'r crynodebau achos bob chwarter?

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Dear Sirs

**STANDARDS COMMITTEE FORUM NORTH WALES ("SCFNW")**

During a meeting of the SCFNW it was agreed that it would be beneficial to all standards committees in Wales if the Ombudsman would be willing to provide sanctions guidance specifically tailored to the needs and powers of standards committees; rather than seeking to apply relevant passages from the APW's Guidance.

Additionally, the first issue of "The Ombudsman Code of Conduct Casebook" has been very helpful. However, the SCFNW considers it would be even more useful if the case summaries could be published as and when the cases are concluded, perhaps on the Ombudsman's website. We would be glad to know if this could be accommodated. Alternatively, might the case summaries be published quarterly?

We look forward to hearing from you.

CC-017471-AP/201624

Llawer o ddiolch.

Many thanks.

Yr eiddoch yn gywir

Yours faithfully

Cadeirydd Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru /
The Chair of the North Wales Standards' Committee Forum

This page is intentionally left blank

ATODIAD / ENCLOSURE
C

CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | Pwyllgor Safonau |
| DYDDIAD: | 11 Mehefin 2014 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Adrodd ar gyhoeddi Cofrestrau Statudol ar-lein |
| ADRODDIAD GAN: | Rheolwr Gwasanaethau Ar-linell |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor |

1. Cofrestr Buddiannau a ddatganwyd mewn Cyfarfodydd - Sefyllfa Bresennol

   Nid yw gofyniad y Pwyllgor Safonau i'r aelodau unigol fod yn gyfrifol am lenwi Buddiannau a ddatganwyd mewn Cyfarfodydd yn dechnegol bosibl ar hyn o bryd drwy'r system Modern.Gov .

2. Gofynnwyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Ar-linell ymchwilio i'r gost o alluogi datblygiad technegol sy'n

   • caniatáu i aelodau gofnodi eu datganiadau eu hunain

   • caniatáu i'r datganiadau cael eu cofnodi drwy'r Gymraeg a'r Saesneg

   • caniatáu i'r holl ddatganiadau cael ei hysbysu i Weinyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

   • caniatáu i'r Gweinyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol i allu atodi / newid mewn ymgynghoriad â'r aelod ac i gymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad

3. Cynigwyd yr ymateb canlynol gan gwmni Modern.Gov:

   Bydd yr Aelodau yn gallu cael mynediad i'r tudalen newydd drwy'r dudalen safonol agenda a chofnodion modern.gov ar y fewnrwyd .

   Bydd dewis dolen yn tywys yr aelod i dudalen bydd yn cael eu harddangos yn iaith ddewisol yr aelod. Ar y dudalen hon bydd:

   • teitl yr eitem

   • disgrifiad yr eitem

   • cwymplen yn caniatáu i'r defnyddiwr i ddewis y categori datganiad

   • cwymplen yn caniatáu detholiad o eitemau agenda eraill o'r un rhaglen ( gellir gwneud datganiad yn erbyn sawl eitem ar agenda penodol) .

• maes er mwyn nodi'r rheswm Saesneg ( y testun gwirioneddol y datganiad yn Saesneg)

• maes er mwyn nodi'r rheswm Cymraeg ( testun gwirioneddol y datganiad yn y Gymraeg)

• botwm Cyflwyno

Bydd y meysydd categori a rheswm i gyd yn ddewisol ond rhaid i o leiaf un maes rheswm gael ei gwblhau .

Bydd y datganiad a gyflwynir yn cael ei storio fel 'aros am gymeradwyaeth ' a danfonir hysbysiad i'r Gweinyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol bydd yn gallu:

• arbed: Mae hyn yn arbed unrhyw newidiadau i'r ffurflen, ond yn gadael y statws yn ' aros am gymeradwyaeth ' .

• dileu : Bydd hyn yn dileu'r datganiad yn barhaol .

• cymeradwyo : Bydd hyn yn cymeradwyo'r datganiad ac yn arbed unrhyw newidiadau.

Ni fydd datganiadau yn ymddangos yn erbyn y cyfarfod perthnasol hyd nes ei gymeradwyo .

4. Cost

Bydd y gost o'r datblygiad hwn yn £ 7,500 + TAW

Mae Modern.Gov yn rhagweld y byddant yn gallu uwchraddio'r system i ddarparu'r newidiadau newydd o fewn tri mis o gymeradwyaeth i symud ymlaen. Bydd hefyd angen cyfnod o brofi a hyfforddiant .

This page is intentionally left blank

# ATODIAD / ENCLOSURE
# CH

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **11 MEHEFIN 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Y WEITHDREFN GWYNION GORFFORAETHOL (AC EITHRIO AR GYFER Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC YSGOLION) - CYDYMFFURFIAETH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |

**Rhagarweiniad**

Cynhaliwyd archwiliad o'r Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol fel rhan o'r cynllun cyfnodol ar gyfer gwaith archwilio mewnol yn 2014/15 yn dilyn cais gan y Pwyllgor Safonau. Roedd yr adolygiad yn cynnwys profion cyfyngedig ar reolaethau allweddol o fewn y weithdrefn gyda golwg ar ddod i farn ynghylch cydymffurfiaeth gyda'r weithdrefn a'i heffeithiolrwydd.

Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, derbyniwyd a phroseswyd 62 o gwynion.

**Casgliadau**

Casglodd yr adolygiad bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r polisi o fewn y Gwasanaethau ac yn Gorfforaethol. Roedd y ddau wendid o ran rheolaethau yn ymwneud â hyfforddi staff ar y Polisi Pryderon a Chwynion a chynhyrchu adroddiad blynyddol i ddarparu dadansoddiad o batrymau cwyno a gwersi i'w dysgu o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ddau wendid hyn yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth gyda rheolaethau a nodwyd o fewn y Polisi.

O'r 62 o gwynion ffurfiol a dderbyniwyd ac a broseswyd yn ystod y cyfnod Ebrill 2013 i Fawrth 2014, dim ond dau ohonynt a gyfeiriwyd i'r Ombwdsmon. Mae hyn yn cyfateb i 3.3% o'r holl gwynion a broseswyd sydd, fe ystyrir, yn ffigwr isel o gymharu â chyfanswm y cyfeiriadau. O'r cwynion a gyfeiriwyd i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru ni chafodd yr un ohonynt eu cefnogi gan yr Ombwdsmon fel achosion o gamweinyddiaeth gan y Cyngor

Mae'r ffigyrau hyn yn rhoi sicrwydd bod y Polisi Pryderon a Chwynion yn cael ei weithredu'n gyson o fewn y gwasanaethau ac yn gorfforaethol a'i fod yn parhau i fod yn effeithiol.

**Argymhellion**

Gwnaed dau o argymhellion categori canolig mewn perthynas â materion cydymffurfiaeth a nodwyd ynghylch hyfforddi staff ac adrodd yn flynyddol, gan gynnwys patrymau a gwersi a ddysgwyd.

**JOHN FIDOE**
**RHEOLWR ARCHWILIO** **03 Mehefin 2014**

ATODIAD / ENCLOSURE
DD

## WYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO – "O" –YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATED

## PWYLLGOR SAFONAU – 11.06.2014 – STANDARDS COMMITTEE

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor | Prif Weithredwr / Chief Executive | (i) 017339<br>(ii) 20130411 8 | 29.10.13 | 10.04.2014 – Mae'r Ombwdsmon yn parhau i ymchwilio / Ombudsman is still investigating. |
| 2. Cynghorydd Sir / County Councillor | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | (i) 017368<br>(ii) 20130437 2 | 13.11.13 | 10.04.2014 – Mae'r Ombwdsmon yn parhau i ymchwilio /Ombudsman is still investigating. |
| 3. Cynghorydd Sir / County Councillor | Member of public/aelod o'r cyhoedd. | 17725 | 08.04.2014 | 10.04.2014 – Nid yw'r Ombwdsmon yn ymchwilio / Ombudsman is not investigating. |
| 4. Cynghorydd Sir / County Councillor | Member of public/aelod o'r cyhoedd. | 17724 | 08.04.2014 | 10.04.2014 – Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio/Ombudsman is investigating. |
| 5. Cynghorydd Sir / County Councillor | Member of public/aelod o'r cyhoedd. | 17726 | 08.04.2014 | 10.04.2014 – – Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio/Ombudsman is investigating. |

# ATODIAD / ENCLOSURE E

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**

**Diweddariad – [x] - Update**

**Pwyllgor Safonau- 11 Mehefin 2014/ Standards Committee 11 June 2014**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor | Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor | (i) 17398<br>(ii) 201305202 | 20.11.2013 | 5.12.2013 – "O" yn dal i ymchwilio / "O" is still investigating.<br><br>15.05.2014 – "O" wedi cynnal cyfweliad yn Swyddfeydd y Cyngor./O has held an interview in the council offices. |

# ATODIAD / ENCLOSURE F

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **11 Mehefin 2014** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru 12 Mawrth 2014 i 11 Mehefin 2014** |
| **Adroddiad gan** | **Cyfreithwraig Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **Darparu gwybodaeth ar y materion y rhoddwyd sylw iddynt gan Banel Dyfarnu Cymru** |

## 1.0 Cyflwyniad a Chefndir

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru yn unol o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos dros dro i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliadau i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chôd ymddygiad eu hawdurdod; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 12 Mawrth 2014 a 10fed o Mehefin 2014 ac fe'i bwriadwyd fel crynodeb ffeithiol o'r materion sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fydd yn disodli'r adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor pan fydd Panel Dyfarnu yn rhoi sylw i gŵyn sy'n ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn.

## 2.0 Penderfyniadau a wnaed rhwng 12.03.2014 a dyddiad yr adroddiad hwn

21/02/2014 – Cyngor Tref Llandrindod - APW/001/2013-014/CT

Gweler y Tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd a chanlyniadau'r achosion uchod.

| Enw | Crynodeb | Darpariaethau Perthnasol y Côd | Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyng. Nathan Casey | • Ymddwyn tuag at yr achwynydd mewn modd a fyddai'n cyfateb i aflonyddu yn cynnwys cynnal arolwg fyddai'n camarwain y cyhoedd ac yn niweidio enw da'r achwynydd. Nodwyd mewn neges ar Facebook i'r achwynydd mai pwrpas yr arolwg oedd "i'ch stopio chi rhag dod yn aelod o fwrdd llywodraethwyr ysgol gynradd ym Mhowys";<br><br>• Anfon e-byst a phostio negeseuon ar Facebook oedd yn amharchus ac yn achosi gofid;<br><br>• Dim yn rhoi gwybod i'r Ombwdsmon am yr hyn a oedd, yn ei farn ef, yn achos o dorri'r côd ymddygiad i'r Ombwdsmon a dim yn ymgysylltu yn y broses ymchwilio;<br><br>• Ni wnaed sylwadau llafar i'r Tribiwnlys Achos oherwydd nad oedd y Cyng. Casey yn bresennol, ac fe wnaed penderfyniad yn seiliedig ar sylwadau ysgrifenedig. | Torri para 4(b), 4(c), 6(1) (c) a 6(2) y côd ymddygiad. | Anghymwyso am 3 blynedd. | • Roedd y Cyng. Casey wedi anwybyddu gwybodaeth a chyngor gan y Swyddog Monitro a'r Heddlu ac wedi parhau i gynnal arolwg a oedd yn cyflwyno gwybodaeth rannol a chamarweiniol am gyd-gynghorydd ac a oedd yn debygol o achosi niwed enfawr i enw da a llawer iawn o ofid.<br>• Wedi anfon nifer o e-byst a phostio sylw ar dudalen Facebook Cyng. Turner oedd yn fygythiol ac yn debygol o fychanu'r derbynnydd.<br>• Roedd y Cyng. Casey wedi gwrthod yn bendant i ateb cwestiynau neu gydweithredu gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon. |

This page is intentionally left blank

ATODIAD / ENCLOSURE
FF

# Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion 2012 – 2013

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaethau perthnasol y Cod, | Crynodeb o'r Penderfyniad | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| APW/002/2011-012/CT - Cyngor Sir Ynys Mon | - Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor drwy wneud ymosodiadau personol parhaus o natur sarhaus yn erbyn y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Swyddog Monitro ar y pryd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro blaenorol a gwneud ceisiadau niferus am wybodaeth gan roi pwysau gormodol a baich sylweddol ar Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor.<br>- Dywedodd y cynghorydd ei fod, wrth wneud y sylwadau a oedd wrth wraidd y gwˆyn yn ei erbyn, ei fod yn gweithredu fel aelod o'r cyngor drwy amlygu gweithgareddau a oedd, yn ei dyb ef, yn amhriodol. Roedd yn cyflawni'r dyletswyddau a roddwyd iddo fel cynrychiolydd etholedig Cyngor Sir Ynys Môn.<br>- Drwy dynnu sylw at ymarfer | Torri paragraffau 4(b) a 6(1) (a) y cod ymddygiad. | - Dyfarnodd y tribiwnlys fod y cynghorydd, drwy ei weithredoedd tuag at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y pryd, yn enwedig yr iaith a ddefnyddiwyd, wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth a bod ei weithredoedd hefyd yn gyfystyr â bwlio ac aflonyddu<br>- Dyfarnodd y Tribiwnlys fel uwch swyddog, nad oedd gweithredoedd y cynghorydd fel uwch swyddog yn gyfystyr â bwlio neu aflonyddu ar y Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro.<br>- Fodd bynnag, dyfarnodd y tribiwnlys fod gwneud honiadau di-sail yn y cyfryngau cyhoeddus yn datgan bod y cyfarwyddwr dro yn annonest a llwgr yn dangos ei fod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth gan dorri paragraff 4(b) y | Penderfynodd y Tribiwnlys yn unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd dros dro rhag gweithredu fel aelod o'r cyngor am gyfnod o 12 mis.. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaethau perthnasol y Cod, | Crynodeb o'r Penderfyniad | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| | ymddangosiadol amheus pobl eraill roedd yn cyfrannu'n ymarferol at lywodraethu da yn yr ardal, gan gynrychioli buddiannau'r rhanbarth etholiadol dan sylw i bob pwrpas ac yn ceisio sicrhau bod y safon uchaf o ran ymddygiad a moeseg yn cael ei chynnal. | | Cod.<br><br>- Dyfarnodd y Tribiwnlys hefyd fod gweithredoedd y cynghorydd wedi torri cod 6(1)(a) o'r cod ymddygiad, sef bod yr honiadau di-sail parhaus o natur ddifrifol yn erbyn uwch swyddogion y cyngor yn gyhoeddus yn sicr o danseilio'r Awdurdod a dwyn anfri arno. Yn ogystal, roedd yr iaith a ddefnyddiodd y Cynghorydd a'r ffaith bod y tribiwnlys wedi dyfarnu nad oedd ei resymau yn ddiffuant yn dwyn anfri pellach ar y swyddogaeth. | |
| APW/003/2011-012/CT, APW/005/2012-013/CT & APW/007/2012-013/CT –Cygor Cymuned Coedpoeth | - Cyfeiriwyd tri achos ar wahân gan yr Ombwdsmon ac ystyriwyd y rhain gan Dribiwnlys unigol.<br><br>- Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor Cymuned uchod drwy ei ymddygiad a'i arestio yn sgil hynny am dor heddwch yn ystod protest, methu â dangos parch ac ystyriaeth at Glerc y Cyngor Cymuned, ei ymddygiad, cael ei arestio, ac | | Yn absenoldeb unrhyw ymateb priodol ac ystyrlon gan y cyn-gynghorydd, penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd, drwy ei weithredoedd, wedi torri'r cod ymddygiad, a thrwy ei agwedd annerbyniol tuag at yr ymchwiliad a'r ffaith iddo ddiystyru'r cod yn gyffredinol, wedi dangos nad oedd yn deilwng o ddal swydd gyhoeddus ac nad oedd yn debygol o fod yn deilwng am | Yn unol â hynny, penderfynodd tribiwnlys yr achos anghymhwyso'r cynghorydd am 5 mlynedd o fod yn aelod o'r cyngor cymuned neu unrhyw awdurdod perthnasol arall. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaethau perthnasol y Cod, | Crynodeb o'r Penderfyniad | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| | yna cael ei garcharu a pheidio â chydweithredu â'r awdurdodau perthnasol yn dilyn protest mewn Llys Sirol a methu â chydweithredu ag ymchwiliad yr Ombwsdmon i'r honiadau hyn. | | y 5 mlynedd nesaf. | |
| APW/001/2012-013/CT –Cyngor Cymuned Llantrisant | - Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad Cyngor Cymuned Llantrisant drwy bostio sylwadau sarhaus iawn heb eu profi am gyn-gymydog ar Facebook.<br>- Dywedodd y cynghorydd mai mater teuluol preifat ydoedd ac na fu unrhyw fwriad i ddwyn y mater i sylw'r cyhoedd. Eglurodd y cynghorydd ei bod wedi gweithredu'n fyrbwyll ac wedi postio'r sylwadau er mwyn amddiffyn ei mab. Dywedodd y cynghorydd na fu bwriad ganddi i achosi niwed neu drallod i unrhyw un a'i bod yn gweithredu fel mam yn hytrach na chynghorydd. | 6(1) (a) | Dyfarnodd y tribiwnlys fod y cynghorydd wedi postio tair neges drwy ei chyfrif Facebook a bod tudalen proffil y cynghorydd yn cyfeirio at ei swydd fel cynghorydd cymuned. Roedd y tribiwnlys yn fodlon bod anfon sylwadau mor gyhoeddus heb dystiolaeth briodol i gadarnhau hynny yn ymddygiad nad oedd yn dderbyniol gan aelod etholedig. Roedd y tribiwnlys yn ystyried bod gwneud sylwadau mor sarhaus ar safle rhwydweithio cymdeithasol a'r ffaith i'r cynghorydd fethu â chymryd camau i dynnu'r sylwadau hynny oddi ar y safle ar unwaith yn ymddygiad a oedd ym marn y tribiwnlys, yn dwyn anfri ar swyddogaeth | Yn yr holl amgylchiadau penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd dros dro rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Llantrisant am gyfnod o 6 mis, neu os yw'n llai, weddill ei chyfnod yn y swydd. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaethau perthnasol y Cod, | Crynodeb o'r Penderfyniad | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | cynghorydd cymuned. | |
| APW/002/2012-013/CT –Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Yr honiadau oedd bod cyn-gynghorydd wedi torri cod ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy anfon e-bost at holl aelodau'r Cyngor lle y bu iddo gamliwio canlyniad gwrandawiad tribiwnlys blaenorol; drwy gydweithredu â'r Merthyr Express er mwyn creu stori am ei waharddiad; camliwio penderfyniad y tribiwnlys pan ysgrifennodd at y Merthyr Express; cyhoeddi llythyr cyfrinachol a deunydd tebyg arall ar ei flog ac yntau eisoes wedi'i wahardd gan y Panel Dyfarnu am hynny; cymryd rhan mewn rhaglen ffonio fyw ar y radio gan gamliwio polisïau'r Cyngor a methu â datgan ei fod, ar y pryd, wedi'i wahardd dros dro o'r Cyngor. | | Dyfarnodd y tribiwnlys fod y cynghorydd wedi camliwio ei swyddogaeth fel cynghorydd yn barhaus ac yn fwriadol ar ôl cael ei wahardd gan dribiwnlys blaenorol, mewn negeseuon e-bost, blogiau, llythyrau ac erthyglau i'r wasg a rhaglen ffonio ar y radio yn ystod cyfnod o dri mis yn dilyn penderfyniad y tribiwnlys; ei fod wedi camliwio dyfarniadau'r tribiwnlys blaenorol yn fwriadol a pharhaus; wedi camliwio'r Cyngor a'i bolisïau; ac, er gwaethaf dyfarniad y tribiwnlys blaenorol, wedi cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol yn fwriadol ac wedi methu â gofyn am gyngor gan yr awdurdodau priodol. | Casglodd y tribiwnlys yr yn unfrydol y dylid anghymhwyso'r cyn-gynghorydd am dair blynedd o fod neu ddod yn aelod o gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Ddeddf Lywodraeth Leol 2000, a hynny ar unwaith. |
| APW/004/2011-012/CT –Cyngor Sir Ddinbych | Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi tramgwyddo paragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) drwy wneud sylwadau amhriodol ar ddau achlysur gwahanol ynghylch Mwslimiaid, sipsiwn a theithwyr yng nghyfarfodydd y | 4(a), 4(b) a 6(1)(a) | Penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol mewn perthynas â'r ddau honiad, fod y cyn-gynghorydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 4(b) o god ymddygiad y cyngor. Dyfarnodd y tribiwnlys ymhellach fod y cynghorydd | Penderfynodd y tribiwnlys fod ymddygiad y cyn-gynghorydd yn haeddu cerydd gan nad oedd yn dderbyniol i unrhyw gynghorydd ddefnyddio iaith a mynegi barn |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaethau perthnasol y Cod, | Crynodeb o'r Penderfyniad | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| | Grwˆp Cydraddoldebau Corfforaethol. | | wedi torri paragraffau 4(a) a 6(1)(b). | mewn ffordd a fyddai'n amhriodol neu'n sarhaus i bobl eraill. |

## Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 2012 – 2013

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaethau perthnasol y Cod, | Crynodeb o'r Penderfyniad | Casgliadau |
|---|---|---|---|---|
| APW/003/2012-013/A – Cyngor Sir Ynys Mon | Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau Cyngor Sir Ynys Môn fod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor, ac y dylid ei wahardd dros dro am gyfnod o 6 mis.<br><br>Roedd yr achos yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o god ymddygiad y Cyngor o ganlyniad i dderbyn collfarn droseddol am fethu â datgan ei incwm llawn wrth ymgeisio am Fudd-dal Analluogrwydd, gan ddwyn anfri ar ei swyddogaeth neu'r awdurdod. | 6(1)(a) | Penderfynodd y tribiwnlys ei bod yn amlwg bod y cynghorydd yn amharod i fod yn onest a'i fod yn gyndyn i ddarparu datganiad llawn a chywir o wybodaeth i'r rhai a oedd yn ymchwilio i'r honiad oni bai fod pwysau arno i wneud hynny neu tan y byddai pwysau arno i wneud hynny. | Yn unol â hynny, penderfynodd y tribiwnlys yn unfrydol i gymeradwyo penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn, i wahardd y cynghorydd, dros dro am 6 mis. |

# ATODIAD / ENCLOSURE G

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD:** | 11 Mehefin 2014 |
| **TEITL:** | Sesiynau Hyfforddi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ar y Côd Ymddygiad |
| **ADRODDIAD GAN:** | Awena Parry Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Derbyn rhagor o gyfarwyddiadau gan y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Awena Parry – Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)<br>Est 2563 |

### 1. Rhagarweiniad a Chefndir

Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau a'u cynorthwyo i gydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad. Rhoddir pwyslais mawr ar hyfforddi aelodau ac, fel y gwyddoch, trefnwyd sesiynau hyfforddi ychwanegol ym mis Medi 2013 yn benodol ar gyfer cynghorau tref a chymuned.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:- (i) adolygiad o'r ymatebion a gafwyd i'r tri llythyr a anfonwyd at y cynghorau hynny nad oeddent wedi anfon eu lwfans llawn o aelodau i'r sesiynau hyfforddi; (ii) Trafodaeth ar y sesiwn hyfforddi nesaf a ddarperir gan y Swyddog Monitro, a (iii) unrhyw bynciau yr awgrymir y gellir rhoi sylw iddynt yn y sesiwn honno.

### 2. Ymatebion i'r llythyrau a anfonwyd

Fel y trafodwyd yn y ddau gyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau, anfonwyd tri llythyr at y cynghorau tref a chymuned ar ôl cynnal y sesiynau hyfforddi. Anfonwyd llythyr 1 at y rheini a anfonodd gynrychiolaeth lawn, sef tri aelod, anfonwyd llythyr 2 at y rheini a anfonodd un neu ddau aelod, ac anfonwyd llythyr 3 at y rheini nad oeddent wedi anfon unrhyw aelodau o gwbl i'r sesiwn hyfforddi. Mae Atodiad 1 yn cynnwys tabl o'r ymatebion yr ydym wedi eu derbyn i'r llythyrau hyd yn hyn, ynghyd â'r dyddiau a awgrymwyd i ni ar gyfer cynnal yr hyfforddiant a sylwadau a gafwyd gan y Cynghorau Cymuned ar yr hyfforddiant ei hun.

Mae Atodiad 1 hefyd yn cynnwys rhestr o'r holl gynghorau tref a chymuned nad ydynt wedi ymateb i'n llythyr hyd yma.

Noder os gwelwch yn dda ein bod yn deall bod cynghorau tref a chymuned Llanfair, Penmynydd a Star yn trefnu eu hyfforddiant eu hunain a roddir gan y Cynghorydd John Roberts a'r Cynghorydd Meirion Jones.

Fel y gellir gweld yn Atodiad 1 mae'n ymddangos ar hyn o bryd nad oes cefnogaeth i'r hyfforddiant hwn oherwydd yr ydym yn parhau i fod yn disgwyl am ymatebion gan nifer o gynghorau cymuned.

Fodd bynnag, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r hyfforddiant hwn naill ai yn y bore neu'r prynhawn ar y 29ain neu'r 30ain Medi 2014. Mae'n annhebygol y byddwn angen 2 sesiwn o gofio'r diffyg ymatebion hyd yma.

## 3. <u>Awgrymiadau ar gyfer hyfforddiant</u>

Rydym yn credu y bydd angen i'r sesiynau hyfforddi ar gyfer clercod ganolbwyntio ar y cyngor y maent yn ei roddi i'w haelodau ar y Côd. Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu cyflwyno sylwadau ynghylch pa bynciau y byddai'n werth rhoi sylw iddynt yn ystod y sesiynau. Mae gennym rai awgrymiadau isod:-

(i) Prif ofynion y Côd, yn enwedig datganiadau o ddiddordeb.
(ii) .Materion o fewn cynghorau cymuned sydd weithiau'n arwain at wrthdaro a chwynion.
(iii) Y Côd, y drefn gwyno a swyddogaethau a chyfrifoldebau.
(iv)Trafodaethau grŵp ar senarios ynghylch materion côd ymddygiad a thrafodaeth ynghylch sut orau i ddatrys y rheini ym marn y clercod.
(v) Trafodaeth am achosion perthnasol a fu gerbron Panel Dyfarnu Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar, yn arbennig rhai sy'n ymwneud â chynghorau cymuned;
(vi) Cyfle i rwydweithio a gofyn cwestiynau.

Nid ydym yn cynnig y bydd angen i Aelodau'r Pwyllgor Safonau fod yn bresennol (gan eu bod eisoes wedi cael yr hyfforddiant hwn) ond efallai yr hoffai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd hwyluso rhagarweiniad?

**Argymhellion**

Rhoi gwybod i'r swyddogion am y pynciau a fyddai yn eich barn chi, yn ddefnyddiol I'r Clercod gael hyfforddiant yn eu cylch.

# Atebion gan Cynghorau Cymuned/Responses from Community Councils

| Cyngor Cymuned/Community Council | Llythyr/Letter | Sylwadau/Comments | Preferred Training Dates/Dyddiad a ffefrir ar gyfer Hyfforddiant |
|---|---|---|---|
| lanfaelog | 2 | Dim/None | |
| lanfair Mathafarn Eithaf | 2 | Barn yr aelodau oedd y buasai'n amgenach cael hyfforddiant uniongyrchol gan swyddog gyda chymwysterau yn y meysydd priodol yn dod i gyfarfodydd y cynghorau cymuned. Rhaid cofio mae lleygwyr yw y mwyafrif y clercod gyda ychydig o brofiad yn y gyfraith.<br><br>The members felt that it would be more beneficial to receive training directly from an officer qualified in the relevant areas who would attend meetings of the community councils. It must be borne in mind that the majority of the clerks are laypersons with little legal experience. | 30ain/30$^{th}$ |
| lanidan | 2 | Mae'r clerc yn teimlo fod ganddo lawer mwy i'w ddysgu cyn y byddai'n medru rhannu'r hyfforddiant yn hyderus gyda'r aelodau.<br><br>The clerk feels that he has a lot more to learn before he could share the training confidently with the members. | Unrhyw ddyddiad/No Preference |
| ' Fali | 2 | Dim/None | Ni fedr ond dod gyda'r nos gan ei fod yn gweithio amser llawn.<br><br>Can only come during the evenings |

Tudalen 47

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | as works full time. |
| laneilian | 2 | Dim/None | |
| langristiolus a Cerrigceinwen | 3 | Dim/None | |
| lanbadrig | 2 | Dim/None | Unrhyw ddyddiad/No Preference |
| landdaniel-fab | 2 | Dim/None | |
| eaumaris | 3 | Petai modd cynnal sesiwn hyfforddiant arbennig yn Neuadd y Dref, Biwmares, yna maent yn sicr y byddai'r mwyafrif o'r aelodau'n mynychu.<br><br>If there was a possibility of a special training session at Beaumaris Town Hall they are sure the majority would attend. | |
| lanfihangelesceifiog | 2 | Dim/None | |
| yngor Cymuned Trearddur Community ouncil | 2 | Yn synnu eu bod wedi derbyn llythyr oherwydd roeddynt eisiau anfon tri chynghorydd ond cawsant ar ddeall nad oedd digon o lefydd ar gael. Mae swyddogion y cyngor wedi adolygu'r sefyllfa ers hynny ac wedi ymateb iddynt yn egluro mai nad dyna oedd y sefyllfa.<br><br>Surprised to have received a letter because they wanted to send three councillors but were advised that there were no further vacancies. The officers of the council have since reviewed the position on this and responded to let them know that this was not the case. | |
| hosyr | 3 | Dim/None | Unrhyw ddyddiad/No Preference |
| ref Alaw | 2 | Dim eisiau i'r clerc fod yn gyfrifol am | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hyfforddi'r cynghorwyr eraill. Nid yw'r clerc yn meddu ar y cymwysterau i weithredu fel hyfforddwr neu athro ac ni fyddai'n gallu cyflawni'r dasg hon.<br><br>Does not want the clerk to be responsible for training the other councillors. The clerk is not qualified as either a trainer or a teacher and will be unable to perform this task. | |
| rewalchmai | 1 | | Unrhyw ddyddiad/No Preference |
| laneilian | 2 | | Unrhyw ddyddiad/No Preference |
| loelfre | 3 | Dim yn meddwl y dylai'r clerc fod yn gyfrifol am hyfforddi.<br><br>Doesn't think the clerk should be conducting training. | 30ain/ 30th |
| landdona | 3 | | 29aind/29th |
| aergybi / Holyhead | N/A | | 29ain/29th |
| lechell | | Dyddiadau eisoes wedi cael eu gosod ond wedi cael eu canslo ar y funud olaf gyda'r tri Chynghorydd Cymuned methu mynychu ar y dyddiad a drefnwyd wedyn.<br><br>Dates had been set but cancelled at the last minute and the three councillors could not attend on the later date. | |
| ryngwran, Llanddyfnan, Penmynydd a tar | | | Unrhyw ddyddiad/No preference. |
| langefni | | | Unrhyw ddyddiad/No preference. |

**Dim Ymateb/No Response**

1. Llannerch-y-medd
2. Pentraeth
3. Llangoed a Penmon
4. Aberffraw
5. Amlwch
6. Bodffordd
7. Bodorgan
8. Llanfaethlu
9. Llanfairpwll
10. Porthaethwy
11. Rhoscolyn
12. Bodedern
13. Cwm Cadnant
14. Cylch y Garn
15. Llaneugrad
16. Llanfachraeth
17. Llanfair yn Neubwll
18. Rhosybol

ATODIAD / ENCLOSURE
NG

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD:** | 11 Mehefin 2014 |
| **TEITL:** | Sesiynau Hyfforddi i Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru |
| **ADRODDIAD GAN:** | Awena Parry - Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Awena Parry - Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)<br>Est 2563 |

### 1. Cyflwyniad a Chefndir

Yn ystod sesiwn hyfforddiant yn ddiweddar i Swyddogion Monitro Cymru Gyfan, darparwyd hyfforddiant gan Peter Keith Lucas ar rôl y Swyddog Monitro. Roedd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor hwn yn credu y byddai o fudd i Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru fynychu sesiwn hyfforddiant debyg ar rôl y Pwyllgor Safonau fel o'r ymrwymiad parhaus i hyfforddi a diweddaru.

Mewn cyfarfod diweddar o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru, rhoddwyd y cynnig hwn iddynt ac fe gytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol yn unfrydol y byddai hyn yn fuddiol a chytunwyd y byddem yn ysgrifennu at holl Aelodau Pwyllgorau Safonau Cynghorau Gogledd Cymru i ofyn a fyddent yn cytuno i hyn a rhannu'r costau.

### 2. Ymatebion

Mae 7 awdurdod wedi cytuno i rannu'r gost (yn cynnwys Awdurdod Tân Gogledd Cymru).

### 3. Dyddiad a Chynnwys

Bwriedir cynnal yr hyfforddiant ar 1 Gorffennaf o 10am i 4pm yn siambr Cyngor Sir Ynys Môn.

## 4. <u>Cynnwys</u>

Gweler atodiad 1 os gwelwch yn dda am fanylion ynghylch yr hyn y bwriedir ei gynnwys yn yr hyfforddiant ac a anfonwyd ataf eisoes gan Peter mewn e-bost. Mae'n canolbwyntio ar faterion cyfredol fel blogio a'r gorgyffwrdd rhwng diddordeb dan y Côd a rhagfarnu/rhag-benderfynu. Yn ystod y prynhawn, bydd gwrandawiad ffug yn cael ei gynnal gyda'r hyfforddwr yn gweithredu fel adroddwr gan egluro pam fod pethau wedi digwydd, gan nodi arfer dda, a chan ofyn cwestiynau ychwanegol a chynnal trafodaeth.

## 5. <u>Argymhellion</u>

Cymeradwyo'r cynnwys arfaethedig ac awgrymu unrhyw bynciau/faterion ychwanegol y gellid eu trafod.

**From:** Peter Keith-Lucas [mailto:Peter.Keith-Lucas@bevanbrittan.com]
**Sent:** 24 April 2014 10:04
**To:** Awena Parry
**Subject:** RE: Standards Committee Training

Awena,
Sorry not to have come back to you earlier.
Yes, I would be delighted to assist.
If we were thinking of a full day, 10 to 4, then we could have a couple of talk session in the morning, focusing on what you identify as current issues – perhaps blogging and the overlap between Interests under the Code and Bias and Predetermination? How about Interests in any Re-Organisation? In the afternoon, we could run a mock hearing. We did this at the Wales Standards Conference in 2011 at Llandrindod Wells, and it went down well. We have run it many times in England on a slightly different script – before England scrapped all of this. I attach the scenario and script which I used then, and I could update it. Have a read and tell me if there are any twists that you would like incorporated. Essentially, I volunteer members and officers into the various roles and they play-read the script, and I act as Narrator, explaining why things have happened, pointing out good practice, throwing in extra questions. It is always good fun, and it points out the importance of the Chair.
I would have to suggest a fee of £3,000 + VAT, all-in, on the basis that you arrange and pay for the venue, catering and photocopying. No limit on how many members and officers we take. That is on the basis that I certainly deliver the session personally, and leave it up to Olwen whether she wants to join me.
If this is acceptable, perhaps you could suggest some dates. My diary tends to be pretty clear until about a month ahead, when it fills up rather alarmingly. But I could reserve 2 or 3 dates for you to confirm with the participating authorities.

Peter Keith-Lucas | Consultant
for **Bevan Brittan LLP - The public services law firm**

Awena
Mae'n ddrwg gennyf gymryd cyhyd i ddod yn ôl atoch.
Byddwn yn falch o'ch cynorthwyo.
Os oeddech yn meddwl am ddiwrnod llawn, 10 tan 4, byddai modd cael sesiynau sgwrsio yn y bore gan ganolbwyntio ar feysydd cyfredol i chi - blogio efallai a'r gorgyffwrdd rhwng Diddordebau dan y Côd a Rhagfarnu a Rhag-benderfynu? Beth am Ddiddordebau mewn unrhyw Ad-drefnu? Yn y prynhawn, gellid cynnal gwrandawiad ffug. Gwnaed hynny yng Nghynhadledd Safonau Cymru 2011 yn Llandrindod a chafodd dderbyniad da. Rydym wedi gwneud hyn sawl gwaith yn Lloegr gyda sgript ychydig yn wahanol - cyn i Loegr wneud i ffwrdd â hyn oll. Rwy'n amgáu'r senario a'r sgript a ddefnyddiais bryd hynny a gellwn eu diweddaru. Darllenwch y sgript os gwelwch yn dda a dweud wrthyf am unrhyw beth yr hoffech ei gynnwys ynddi. I bob pwrpas, byddaf yn gwirfoddoli aelodau a swyddogion i wahanol rolau ac mae nhw'n chwarae-ddarllen y sgript a byddaf i'n cymryd arnaf rôl yr Adroddwr ac yn egluro pam fod pethau wedi digwydd, dwyn sylw at arferion da a gofyn cwestiynau ychwanegol. Mae'n ymarfer hwyliog ac mae'n tanlinellu pwysigrwydd rôl y Cadeirydd.
Byddwn yn awgrymu ffi o £3,000 + TAW am y cyfan, ar yr amod eich bod chi'n trefnu lleoliad, arlwyo a llun-gopïo ac yn talu am y rhain. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer yr aelodau a'r swyddogion all fod yn bresennol. Mae hyn ar y sail y byddaf i'n bendant yn cyflwyno'r sesiwn - gall Olwen benderfynu a ydyw'n dymuno ymuno ai peidio.
Os yw hyn yn dderbyniol, efallai y gallech awgrymu rhai dyddiadau. Mae fy nyddiadur yn weddol glir tua mis ymlaen llaw, ond wedyn mae'n llenwi'n aruthrol o gyflym. Ond gellwn gadw 2 neu 3 o ddyddiadau i chi eu cadarnhau gyda'r awdurdodau a fyddai'n cymryd rhan yn y sesiwn.

Peter Keith-Lucas | Consultant
for **Bevan Brittan LLP - The public services law firm**

# ATODIAD / ENCLOSURE H

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 08 Mai 2014 @ 2pm |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2013-14 a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2014-15 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddiaeth/Swyddog Monitro (est 2568) |

Rhagarweiniad

(i) Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol ac arno 9 aelod (2 Gynghorydd Sir, 5 Aelod Annibynnol a 2 Aelod o Gynghorau Cymuned).

(ii) Penodwyd y Pwyllgor cyfredol am gyfnod o 4 blynedd hyd at 17 Rhagfyr 2015.

(iii) Mae gan y Pwyllgor Safonau'r rôl a'r swyddogaethau isod (ymysg pethau eraill):-

(a) hyrwyddo a chynnal safon uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr;
(b) cynorthwyo cynghorwyr i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau;
(c) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr;
(d) rhoi caniatadau arbennig;
(e) delio gydag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro neu adroddiad a gyfeiriwyd ati gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(iv) Mae copi o Gyfansoddiad llawn y Pwyllgor Safonau ar gael ar gais gan y Swyddog Monitro.

Sylwadau Cyffredinol

1. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2013, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2013/14. Yn y Rhaglen wreiddiol, nodwyd meysydd arfaethedig o ran gwaith, amserlen ac adnoddau. Gweler y ddogfen hon yn **ATODIAD A** yr adroddiad hwn ac mae wedi cael ei diweddaru i gynnwys y gwaith sydd eisoes wedi cael ei gyflawni yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.

2. Cyhoeddodd yr Archwiliwr Cyffredinol Adroddiad ym mis Gorffennaf 2009 a oedd, ymysg materion eraill, yn argymell y dylai'r Pwyllgor Safonau gymryd rôl fwy gweithredol o ran codi safon ymddygiad ymysg Aelodau yn hytrach na chyfyngu ei hun i gyflawni gofynion statudol llym. I bob pwrpas, mwy o waith ataliol a llai o waith unioni.

3. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, dyluniwyd y Rhaglen gyfredol a'r rhai diweddaraf, i gefnogi'r Cyngor i sicrhau adferiad, gyda phwyslais ar hunanreoleiddio drwy ddatblygu Aelodau a bod y Pwyllgor Safonau yn darparu cyngor / canllawiau ynghylch datrys anghydfodau lle mae hynny'n bosibl ac yn briodol a hynny o fewn y Cyngor yn hytrach na thrwy rheoleiddwyr allanol.

4. Yr elfen bwysicaf ar gyfer cyflawni'r nod hwn oedd sefydlu Cynllun Datblygu Blynyddol cynhwysfawr i Aelodau, wedi ei deilwrio'n benodol i gwrdd ag anghenion y Cyngor a'i Aelodau. Roedd y Gweithgor Datblygu Aelodau (GDA) yn allweddol yn hyn o beth, ac roedd yn cynnwys Aelodau, Swyddogion a chynrychiolaeth o'r Pwyllgor Safonau. Yn ogystal, roedd y GDA yn adrodd ar gynnydd a chanlyniadau i'r Pwyllgor Safonau bob chwarter.

5. Roedd y GDA hefyd yn gyfrifol am ennill statws Siarter Aelodau a gafodd gefnogaeth dda ac sy'n parhau i fod dan ofal y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru erbyn hyn wedi cyflwyno i'r Cyngor, Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Mae'r siarter yn darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio, hunanasesu, gweithredu ac adolygiad lleol yn ogystal â rhoi cyfleon i gymharu gydag awdurdodau eraill a rhannu arferion da. Hoffem ddiolch i Huw Jones (Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd) a Miriam Williams (Uwch Swyddog Datblygu AD) am wneud gwaith clodwiw yn cynorthwyo'r Cyngor i ennill statws siarter.

<u>Sylwadau'r Cadeirydd</u>

Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf eleni ar feddwl yn strategol i wella safonau a rhannu gwybodaeth gyda chynghorwyr a chynghorau cymuned. Treuliodd y Pwyllgor lai o amser o lawer na'r blynyddoedd diwethaf yn cynnal gwrandawiadau'n codi o honiadau o dorri'r côd ymddygiad ac yn mynychu cyfarfodydd/sesiynau cyfryngu oherwydd methiant o fewn y cyngor i gwrdd â safonau. Rwy'n ystyried hyn fel peth cadarnhaol iawn. Yn y ddwy flynedd a hanner yr ydym wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, rydym oll wedi tystio i welliant anferthol mewn safonau yn y cyngor gyda hynny'n naturiol yn arwain at ostyngiad yn y problemau o ran ymddygiad a'r cwynion sy'n cael eu cyflwyno. Hoffwn ddiolch i'r swyddogion a'r cynghorwyr am eu gwaith caled a'u hymroddiad i sicrhau parhad y safonau uchel yn y cyngor yn dilyn yr ymyrraeth a gobeithio y bydd hyn yn parhau.

Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf eleni ar gynnal safonau yn y cyngor a helpu ein cynghorau cymuned i wella eu safonau oherwydd mae rhai problemau'n parhau gyda rhai cynghorau cymuned ar yr ynys ac ymddengys fod y problemau hynny'n codi oherwydd materion sy'n ymwneud â chamweinyddu. Mae hwn yn fater yr ydym yn gobeithio rhoi sylw iddo gyda chymorth hyfforddiant pellach eleni.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at barhau i adolygu a chodi safonau yn y Cyngor yn 2014/2015.

**ARGYMHELLIAD:-**

1. Nodi'r Rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2013 a Mai 2014 - **ATODIAD A.**

2. Cymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15 fel yr amlinellir yn **ATODIAD B.**

ATODIAD A

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2013 I EBRILL 2014

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | **06/12/2013** Rhoes y Pwyllgor Safonau sylw i adroddiad gan yr Ombwdsmon yn gofyn am farn leol. |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | **04/09/2013** Panel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau. Caniatawyd un cais. |
| 3. | Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | Dim angen gweithredu |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.4(e) y Côd; gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. | | | Darparwyd hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod Medi 2013 gyda chyfradd bresenoldeb o 43.5%.<br>Hyfforddiant pellach ar gyfer yr hydref 2014 wrthi'n cael ei drefnu ar hyn o bryd.<br>Hyfforddiant i aelodau ar y fframwaith moesegol 15/05/2013 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2013 | · Swyddog Monitro<br>· Dirprwy Swyddog Monitro | · Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o'r cofrestrau gan y Pwyllgor Safonau yn ystod Chwefror 2014<br>· Trafodwyd y canfyddiadau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/03/2014<br>· Cylchredwyd canlyniadau cyffredinol yr adolygiad i'r holl aelodau ar 17/04/2014. |
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2013 | · Swyddog Monitro<br>· Dirprwy Swyddog Monitro | · Canfu'r adolygiad nad oedd gwybodaeth ar gael ar-lein o hyd. Mae hyn bellach wedi'i gywiro. |
| 7. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | Fel a phryd y derbynnir cais | | Trafodwyd y newidiadau isod i'r Cyfansoddiad gan y Pwyllgor ar 12/06/2013:-<br>(i) Protocol Cyfryngau Cymdeithasol<br>(ii) Rheolau Gweithdrefn Cynllunio<br>(iii) Protocol Hunanreoleiddio<br>(iv) Polisi GDG newydd |
| 8. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | Fel a phryd y derbynnir cais | · Swyddog Monitro<br>· Dirprwy Swyddog Monitro | · Ymgynghori ynghylch adroddiad atodol drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 12/09/2013 a 12/12/2013<br>· Parhau i ystyried y Prosiect Rheoli Cwynion – Adolygiad Archwilio (12/12/2013) |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r | | | · Cytunwyd â'r argymhelliad i'r |

Tudalen 60

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | | | Pwyllgor Safonau gael disgrifiadau swydd y cytunwyd arnynt ac y dylai'r aelodau fynd drwy broses adolygu perfformiad (12/03/2014) |
| 10 | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | | | 8 Mai 2014 |
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt<br>- o awdurdodau perthnasol eraill<br>- Panel Dyfarnu Cymru<br><br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan | | | Adolygwyd penderfyniadau a gyhoeddwyd gan yr holl Bwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru ar:-<br>12/06/2013<br>12/09/2013<br>12/12/2013<br>12/03/2014<br>Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru:-<br>20/05/2013<br>21/10/2013<br>29/04/2014 |
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu ffeilio gydag OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | | | Trafodaeth barhaus yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau. |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion | | | Cyfarfu'r Cadeirydd ag Arweinyddion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | | | y Grwpiau ar 3 gwahanol achlysur. |
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>1. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>2. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>3. Safonau ymddygiad Aelodau | | | Parhaus<br>12/06/2013<br>12/09/2013<br>12/12/2013<br>12/03/2014 |

ATODIAD B

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2014 I EBRILL 2015

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 3. | Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.4(e) y Côd; gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. | | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os | Erbyn diwedd Ebrill 2015 | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yw hynny'n briodol. | | | |
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2015 | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 7. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 8. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 10 | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | Mai 2015 | Cadeirydd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt<br>- o awdurdodau perthnasol<br>- Panel Dyfarnu Cymru<br><br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan<br>- Cael eu hadolygu'n unol â chynllun rheoli perfformiad sy'n debyg i'r cynllun a ddefnyddir ar gyfer aelodau etholedig. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu ffeilio gydag OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | Fel a phryd y derbynnir cais | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>4. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>5. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>6. Safonau ymddygiad Aelodau | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |
| 15. | Amrywiol<br><br>Awgrymu y dylai aelodau etholedig fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'r pwyllgorau y maent yn gwasanaethu arnynt a'u swyddogaethau penodol. | | Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | |